# **Ymateb Llywodraeth Cymru** Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: adroddiad *Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaith Craffu Blynyddol 2024-25*

2 Gorffennaf 2025

Fel Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig â chyfrifoldeb Gweinidogol am berfformiad a chyflawniad Cyfoeth Naturiol Cymru, rwy'n croesawu adroddiad Craffu Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru yn fawr.

Diolch i'r Pwyllgor am yr ystyriaeth ofalus a phroffesiynol a roddodd wrth wneud y gwaith craffu hwn fel y'i nodir yn ei adroddiad cynhwysfawr a gyhoeddwyd ar 21 Mai 2025.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r 11 o argymhellion yn yr adroddiad.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd

a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

# Cynnwys

**1. Llywodraethiant ... 3**

Argymhelliad 1. ... 3

**2. Effaith yr Achos dros Newid ... 5**

Argymhelliad 2. ... 5

Argymhelliad 3. ... 6

Argymhelliad 4. ... 6

Argymhelliad 5. ... 7

Argymhelliad 6. ... 8

Argymhelliad 7. ... 8

**3. Materion Treth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ... 9**

Argymhelliad 8. ... 9

Argymhelliad 9. ... 10

**4. Y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol ... 11**

Argymhelliad 10. ... 11

**5. Plannu Coed a Chynhyrchu Pren ... 13**

Argymhelliad 11. ... 13

# 1. Llywodraethiant

Yn yr adran hon, roedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn canolbwyntio ar Lythyr Cylch Gwaith, Cynllun Corfforaethol, Cynllun Busnes, pwysau cyllidebol a phrosesau recriwtio Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys swydd wag y Prif Swyddog Gweithredol.

Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad yn yr adran hon.

## Argymhelliad 1.

*Rhaid i CNC symud yn gyflym i recriwtio Prif Swyddog Gweithredol parhaol o fewn y chwe mis nesaf a sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer olyniaeth drefnus o ran Cadeirydd newydd ym mis Hydref 2025.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**1.** Yn dilyn ymarfer recriwtio cynhwysfawr, cyhoeddus a thryloyw yn gynharach eleni, a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru, nodwyd ymgeisydd a gynigiwyd am rôl Cadeirydd i'w ystyried gan y Dirprwy Brif Weinidog. Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wrandawiad cyn penodi ar 11 Mehefin 2025 gyda'r ymgeisydd hwn (Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y gwrandawiad hwn ar 16 Mehefin). Yn amodol ar ystyriaeth y Dirprwy Brif Weinidog o adroddiad y pwyllgor a'i benderfyniad terfynol, rhagwelir y bydd penodiad y Cadeirydd newydd yn dechrau ar 1 Tachwedd 2025.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu rhaglen sefydlu gynhwysfawr i'r Cadeirydd newydd. Bydd y rhaglen sefydlu, gan gynnwys gweithgareddau penodol Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn adeiladu ar y broses sefydlu lwyddiannus a sefydlwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gyflwyno tri aelod anweithredol newydd o'r Bwrdd ym mis Mai. Bydd cyflwyno'r rhaglen hon yn llwyddiannus yn sicrhau y bydd y Cadeirydd yn dyfnhau'r ddealltwriaeth fanwl o'r sefydliad, ei

randdeiliaid, diwylliant Cymru a'r heriau amgylcheddol penodol a wynebir yng Nghymru.

**3.** Ar ôl iddo gyrraedd, bydd y Cadeirydd, gyda chymorth aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn nodi'r meini prawf a'r fanyleb person ar gyfer penodi Prif Swyddog Gweithredol newydd. Mae'r amserlen hon yn golygu y bydd y broses yn dechrau o fewn terfyn amser y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd wedi'i chwblhau'n llawn. Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod unrhyw oedi yn y proses recriwtio mor fyr â phosibl.

## 2. Effaith yr Achos dros Newid

Yn yr adran hon, roedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn canolbwyntio ar ganolfannau ymwelwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, gwasanaethau rheoleiddio a gorfodi, digwyddiadau llygredd amgylcheddol a rheoli perygl llifogydd.

Gwnaeth y Pwyllgor chwe argymhelliad yn yr adran hon.

### Argymhelliad 2.

Rhaid i CNC ddarparu cynllun credadwy ar fyrder ar gyfer ailagor y tair canolfan ymwelwyr. Rhaid i hyn gynnwys eglurder ynghylch ei weledigaeth ar gyfer dyfodol y canolfannau ymwelwyr, y lefelau gwasanaeth y mae'n dymuno eu gweld a strategaeth ariannol hyfyw ac amserlen ar gyfer cyflawni hyn. Dylid darparu'r cynllun hwn i'r Pwyllgor o fewn tri mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**4.** Mae'n bwysig ei bod yn gwbl glir nad oes yr un o safleoedd y tair canolfan ymwelwyr a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gau a bod pob un ohonynt yn parhau i fod ar agor ar gyfer cerdded, beicio, mynediad at ardaloedd chwarae, meysydd parcio a darpariaeth toiledau. Mae'r canolfannau ymwelwyr hyn yn borth gwych i hamdden awyr agored ac yn atyniad pwysig i dwristiaeth yng nghanolbarth Cymru.

**5.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwilio am bartneriaid sydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau manwerthu ac arlwyo ar ddau o'r safleoedd. Disgwylir i'r cynnig i'r farchnad, er mwyn nodi gweithredwyr posibl ar gyfer canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin, gael ei lansio drwy GwerthwchiGymru yn ystod hydref 2025, gyda'r nod o ddyfarnu'r contractau llwyddiannus yn ystod gwanwyn 2026.

**6.** Mae cytundeb rheoli cymunedol wrthi'n cael ei gwblhau gyda Chyngor Cymuned Y Borth ar gyfer defnyddio lle yng Nghanolfan Ymwelwyr Ynyslas i

barhau â'i raglenni allgymorth cymunedol a disgwylir iddo fod ar waith erbyn yr haf.

**7.** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am drefniadau o fewn amserlen y Pwyllgor.

## Argymhelliad 3.

*O ran Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, rhaid i CNC nodi sut y mae'n bwriadu rheoli'r warchodfa natur er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor, ac i'r cyhoedd yn ehangach, y bydd hyn yn ddigonol, o leiaf, i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.*

### Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**8.** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gyflawni'r gwaith parhaus o reoli Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi am fod rheoli gwarchodfeydd natur cenedlaethol yn elfen graidd o swyddogaethau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyllid sy'n cefnogi'r gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud i reoli'r warchodfa natur genedlaethol wedi'i gynnwys yng nghyllideb Cymorth Grant Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw'r Achos dros Newid wedi effeithio arni.

**9.** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo barhau i roi sicrwydd ei fod yn dal i ganolbwyntio ar gyflawni ei swyddogaethau craidd a'i ddyletswyddau statudol.

**10.** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu gwybodaeth â'r Pwyllgor, gan nodi sut mae'n bwriadu rheoli'r warchodfa natur er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod ei rwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni.

## Argymhelliad 4.

*Dylai CNC sicrhau ei fod yn monitro ac yn gwerthuso digonolrwydd y cyllid ar gyfer rheoli llifogydd a'r defnydd ohono. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis er mwyn sicrhau bod hyn yn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb y flwyddyn nesaf.*

### Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**11.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu â Bwrdd y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, sy'n cymeradwyo'r cais am gyllid angenrheidiol cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn cyfarfod â swyddogion llifogydd bob mis er mwyn adolygu cynnydd, y defnydd o gyllid a pherfformiad o ran cyflawni rhaglenni. Yr hydref diwethaf,

cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei Achos Busnes ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a gymeradwywyd wedi hynny gan y Dirprwy Brif Weinidog fel rhan o'r Rhaglen Llifogydd a Dŵr ehangach. Mae'r Achos hwn yn nodi'r lefelau arfaethedig o fuddsoddiad, a asesir gan swyddogion i weld a ydynt yn fforddiadwy ac yn gyson â blaenoriaethau strategol. Caiff yr achos busnes ei ddiweddaru bob blwyddyn wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

**12.** Yn ogystal â gwaith cynllunio blynyddol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi blaenoriaethau tymor hwy drwy ei Ofynion Buddsoddi Hirdymor, sy'n helpu i lywio anghenion o ran buddsoddi yn y dyfodol a chefnogi ein gwaith rheoli llifogydd a nodau ehangach a rennir ar gyfer y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

**13.** Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo roi sicrwydd bod ei raglen rheoli llifogydd yn cael ei chyflawni'n effeithiol, gan sicrhau bod ei brosesau adrodd yn amserol, yn gadarn a'u bod yn cefnogi gwaith craffu a chynllunio cyllidebol effeithiol.

**14.** Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda'r wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys ei flaenoriaethau tymor hwy, o fewn yr amserlen y gofynnwyd amdani.

## Argymhelliad 5.

*Dylai CNC barhau i fonitro'n ofalus ei berfformiad o ran atal digwyddiadau llygredd amgylcheddol ac ymateb iddynt, er mwyn sicrhau nad yw ei newid o ran pwyslais yn arwain at fwy o ddigwyddiadau llygredd neu fethiant i ymateb.*

### Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**15.** Mae rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran monitro digwyddiadau llygredd ac ymateb iddynt yn parhau i fod yn swyddogaeth statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**16.** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo roi sicrwydd ynghylch ei allu i gynnal ei gapasiti gweithredol, gan ddefnyddio ei arbenigedd technegol i helpu i sicrhau na fydd unrhyw newid yn y pwyslais rheoleiddiol yn cynyddu nifer y digwyddiadau llygredd nac yn lleihau ymatebolrwydd.

**17.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu metrigau er mwyn casglu data perfformiad a fydd yn dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud ar ôl mabwysiadu

dull seiliedig ar risg o ymateb i ddigwyddiadau llygredd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddi fonitro ei berfformiad yn y maes hwn, drwy ei strwythurau adrodd rheolaidd.

## Argymhelliad 6.

*Dylai CNC ddweud wrth y Pwyllgor ble y mae o'r farn bod lefel y sancsiynau a'r dirwyon yn rhy isel iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio amgylcheddol yn effeithiol.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**18.** Mae Llywodraeth Cymru yn deall ac yn derbyn awydd Cyfoeth Naturiol Cymru i newid i ddull gweithredu seiliedig ar sancsiynau sifil fel dewis amgen yn lle erlyniad troseddol. Mae'n cefnogi argymhelliad y Pwyllgor y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu'r dystiolaeth sy'n dangos ble mae'r lefel o sancsiynau a chosbau yn rhy isel i'w hystyried ymhellach.

## Argymhelliad 7.

*Dylai CNC barhau i bwyso am gyfundrefn ariannu amlflwyddyn i'w helpu i reoli ei gyllidebau ar gyfer y tymor hir.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn Egwyddor

**19.** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor y dylem weithio i leihau ansicrwydd o ran cyllido cymaint â phosibl ac yn deall yr ansicrwydd o ran cyllido sy'n ymwneud â'r broses pennu cyllideb bresennol yn llawn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hyn fod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau penodol rydym yn gweithredu o'u mewn. Mae amseriad digwyddiadau Cyllidol y DU, cylch etholiadau Llywodraeth y DU a chylch etholiadau'r Senedd oll yn cael cryn effaith ar ein gallu i ddarparu setliadau amlflwyddyn.

**20.** Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru yn nodi ein gweledigaeth i wella proses gyllidebol Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio i ysgogi gwelliant parhaus. Er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu uchelgeisiau hirdymor, rydym wedi defnyddio arbenigedd y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, ochr yn ochr ag amrywiaeth o arbenigwyr a llywodraethau eraill.

**21.** Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddarparu'r holl gymorth sydd ei angen er mwyn sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau amlflwyddyn penodol y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni.

# 3. Materion Treth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

Yn yr adran hon, roedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn canolbwyntio ar y bil treth sy'n ymwneud â materion cydymffurfio hanesyddol o ran gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres, trefniadau ar gyfer lleihau cyllidebau yn y dyfodol er mwyn cydnabod yr atebolrwydd treth a gwell trefniadau monitro.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud dau argymhelliad yn yr adran hon.

## Argymhelliad 8.

*Wedi i'r trafodaethau â CThEF ddod i ben, dylai CNC roi diweddariad llawn ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, ynghyd ag esboniad llawn o sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ad-dalu drwy arbedion effeithlonrwydd a heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**22.** Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod disgwyl i ymchwiliadau CThEF i gydymffurfedd Cyfoeth Naturiol Cymru â gofynion IR35 ddod i ben yn fuan, gyda'r naill a'r llall yn cytuno ar setliad terfynol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi diweddariad llawn i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymchwiliadau hyn cyn gynted â phosibl.

**23.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ar gynllun lleihau cyllideb ar gyfer ei Gyllideb Cymorth Grant er mwyn cydnabod yr atebolrwydd o dan IR35. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol bod ei swyddogaeth graidd a'i ddyletswyddau statudol yn parhau i gael eu cyflawni o fewn y cyllidebau sydd ar gael.

## Argymhelliad 9.

*Yn ogystal â'r trefniadau monitro mwy manwl y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u rhoi ar waith, mae'n hollbwysig bod gwersi'n cael eu dysgu o'r profiad gyda CThEF drwy adolygiad cynhwysfawr. Dylai CNC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gan roi manylion llawn ynghylch ei ddull gweithredu.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

**24.** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr er mwyn deall sut y gellir gwella arferion yn dilyn profiad CThEF. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau ei fod yn rhoi manylion llawn ei ddull o gyflawni'r argymhelliad hwn i'r Pwyllgor.

# 4. Y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol

Yn yr adran hon, roedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn canolbwyntio ar ddarparu adnoddau er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Bil a gwahanu swyddogaethau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r corff llywodraethiant amgylcheddol newydd.

Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad yn yr adran hon.

## Argymhelliad 10.

*Dylai CNC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor (cyn i'r Bil gael ei gyflwyno) ar y casgliadau y mae wedi dod iddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth yn ddigonol.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

**25.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod i'r Bil gael ei gyflwyno ar 2 Mehefin ac nad oedd modd, felly, i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn iddo gael ei gyflwyno. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**26.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu mewnbwn parhaus i'r broses o ddatblygu'r polisïau a geir yn y Bil. Bu cryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu ar sail un i un ac yng nghyd-destun gweithdai ehangach i randdeiliaid. Mae'r Memorandwm Esboniadol a ategodd y broses o gyflwyno'r Bil yn cyfrifo costau cyflwyno'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys, lle y bo'n bosibl, gostau adnoddau ychwanegol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi lle y caiff gwaith pellach ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn cyfrifo costau sy'n gysylltiedig â pholisïau penodol ymhellach.

**27.** Mewn perthynas ag Egwyddorion Amgylcheddol, mae'r ddyletswydd a osodir ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn sylweddol ac mae'n adlewyrchu pwysigrwydd cymryd camau cyson, hirdymor i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn gweithredu

o fewn ein cyfundrefn llywodraethiant amgylcheddol fel stiward dros yr amgylchedd a bod ganddo bwrpas cyffredinol i fynd ati i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd costau cydymffurfio ymylol (yr amcangyfrifir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddant tua £12k y flwyddyn) yn gysylltiedig â'r ddyletswydd newydd hon, yn bennaf ar ffurf amser swyddogion i sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei chymhwyso. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi deunyddiau hyfforddi a chanllawiau er mwyn lleihau amlygiad uniongyrchol Cyfoeth Naturiol Cymru i gostau a gwneir rhagor o waith dadansoddi er mwyn cyfrifo costau pan gytunir ar y ffordd y caiff yr Egwyddorion Amgylcheddol eu rhoi ar waith ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

**28.** Mewn perthynas â'r Targedau Bioamrywiaeth, cynhelir dadansoddiad manwl o gostau disgwyliedig yr is-ddeddfwriaeth wrth iddi gael ei datblygu pan fydd manylion penodol y targedau wedi'u cwblhau. Mae'r gwaith i nodi targedau a dangosyddion addas eisoes wedi dechrau drwy'r Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n benodol â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur er mwyn deall y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag opsiynau ar gyfer targedau addas. Rhagwelir y bydd rhaglenni a redir ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) y Rhaglen Rhwydwaith Natur, Natur am Byth, gwaith ar y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Natur yn parhau i chwarae rôl allweddol yn helpu i gyflawni targedau i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru.

**29.** Parheir i ymgysylltu'n helaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd a'r ffrydiau gwaith gweithredu dilynol er mwyn deall ymhellach yr adnoddau sydd eu hangen i roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn ddigonol.

# 5. Plannu Coed a Chynhyrchu Pren

Yn yr adran hon, roedd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn canolbwyntio ar heriau yn gysylltiedig â chyfraddau plannu coed, y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren ac incwm o bren.

Gwnaeth y Pwyllgor un argymhelliad yn yr adran hon.

## Argymhelliad 11.

*Dylai CNC gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren sydd ar ddod yn caniatáu i CNC reoli ei incwm o bren masnachol yn effeithiol ar draws blynyddoedd ariannol.*

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

**30.** Nid oes modd rheoli incwm ar draws blynyddoedd ariannol am fod cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cyfuno â rhai Llywodraeth Cymru. Gan gydnabod yr effaith y mae hyn yn ei chael ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, ynghyd ag anwadalrwydd y farchnad bren, bydd y trefniadau mewn perthynas â chyllideb bren warantedig Llywodraeth Cymru yn parhau i fod ar waith yn 2025-26. Mae'r trefniadau hyn yn rhoi sicrwydd i Gyfoeth Naturiol Cymru a'r gwaith a wna i reoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau na chyfyngir arno gan farchnadoedd pren. Er mwyn sicrhau bod hyblygrwydd, caiff y trefniadau hyn eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan o negodiadau cyllidebol Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod trefniadau yn dal i fod yn addas at y diben a pharhau i ddod â sefydlogrwydd i'r gwaith cynllunio a rheoli y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

**31.** At hynny, nododd Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren ei hymrwymiad i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried a oes angen cymorth i alluogi buddsoddi mewn capasiti a seilwaith cynaeafu er mwyn cael cymaint o bren â phosibl i'r farchnad rhwng nawr a 2030. Cyhoeddir rhagor o fanylion am hyn pan gaiff y Strategaeth hon ei lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.